Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd

Dyddiad: Dydd Mercher, 26 Mehefin 2019

Amser: 09.15 – 11.40

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5510

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Mike Hedges AC (Cadeirydd) Andrew RT Davies AC Llyr Gruffydd AC Neil Hamilton AC Jenny Rathbone AC Joyce Watson AC
Tystion:	Anne Meikle, WWF Cymru Llinos Price, Woodland Trust Annie Smith, RSPB Filippos Proedrou, Prifysgol De Cymru
Staff y Pwyllgor:	Marc Wyn Jones (Clerc) Andrea Storer (Dirprwy Glerc) Chloe Corbyn (Ymchwilydd)

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd Neil Hamilton AC i'r Pwyllgor.

2 Egwyddorion Amgylcheddol a Llywodraethu ar ôl Brexit – sesiwn dystiolaeth 5

2.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Anne Meikle, Pennaeth World Wildlife Fund (WWF) Cymru; Llinos Price, Swyddog Polisi Cymru, Coed Cadw; ac Annie Smith, Rheolwr Datblygu Cynaliadwy, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) Cymru.

3 Papur (au) i'w Nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

3.1 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at y Cadeirydd – Cyfarfod Grŵp Rhyng-Weinidogol Ynni a Newid Hinsawdd (IMG)

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitemau 5, 6 a 7 yn y cyfarfod heddiw.

4.1 Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o eitemau 5, 6 a 7 yn y cyfarfod heddiw.

5 Egwyddorion Amgylcheddol a Llywodraethu ar ôl Brexit – Ystyried y dystiolaeth a gafwyd o dan eitem 2

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd o dan eitem 2.

6 Blaenraglen Waith – Ystyried yr amserlen ar gyfer y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer ystyried y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru). Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes ar y mater hwn.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor i wahodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig i'w gyfarfod ddydd Iau 18 Gorffennaf 2019 i roi tystiolaeth mewn perthynas â'r Bil. Mae hyn yn amodol ar gyflwyno'r Bil erbyn y dyddiad hwnnw.

7 Briff: Mynd i'r afael â'r bwlch o ran polisi hinsawdd yng Nghymru

7.1 Cafodd y Pwyllgor friff gan Filippos Proedrou, Cymrawd Ymchwil, Prifysgol De Cymru, ar ymchwil a wnaed ar ran y Cynulliad ar fynd i'r afael â'r bwlch polisi hinsawdd yng Nghymru.